barcud



# Hunanarfarniad

Mehefin 2022

# Rhagair

Mae'r Fframwaith Rheoleiddio'n berthnasol i gymdeithasau tai sydd wedi'u cofrestru ac yn cael eu rheoleiddio gan Weinidogion Cymru dan Ran 1 o Ddeddf Tai 1996. Mae'r Fframwaith Rheoleiddio wedi adeiladu ar egwyddor cydreoleiddio. Ystyr cydreoleiddio yw bod y Rheoleiddiwr a chymdeithasau tai yn cymryd cyfrifoldeb gyda'i gilydd dros sicrhau bod y sector a chyrff unigol yn cael eu rheoleiddio'n dda. Mae'r ffordd hon o fynd ati'n gofyn cydberthnasau adeiladol rhwng y Rheoleiddiwr a chymdeithasau tai, gan weithio ar sail 'dim byd annisgwyl'.

Disgwylia'r Rheoleiddiwr i gymdeithasau:

- fod yn agored ac yn onest am risgiau, problemau a heriadau a nodant a sut y maent yn bwriadu mynd i'r afael â'r rhain
- godi materion perthnasol â'r Rheoleiddiwr yn brydlon
- weithio'n adeiladol gyda'r Rheoleiddiwr i ddatrys heriadau
- weithredu'n wirfoddol i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon o bwys a nodir drwy reoleiddio.

Mae hunanarfarniad cadarn, heriol, ar sail tystiolaeth yn hanfodol ac yn rhan annatod o brosesau cynllunio corfforaethol strategol pob cymdeithas, ac yntau'n darparu asesiad o sut mae'r sefydliad yn perfformio yn erbyn ei gynlluniau ac a yw'n cyflawni canlyniadau llwyddiannus i denantiaid a defnyddwyr gwasanaethau ac a yw'n cydymffurfio â'r safonau rheoleiddiol. Y mae felly'n rhan allweddol o'r Fframwaith Rheoleiddio a'r broses asesu.

O leiaf unwaith y flwyddyn, mae rhaid, felly, i bob cymdeithas dai gynhyrchu a chyflwyno hunanarfarniad sy'n arfarnu ansawdd llywodraethiant, darpariaeth gwasanaethau a hyfywedd ariannol y sefydliad wrth gyflawni ei bwrpas a'i amcanion. Mae rhaid iddi hefyd gynnwys crynodeb o unrhyw newidiadau o bwys sy'n berthnasol i'r agweddau hynny ers i'r dyfarniad diwethaf gael ei roi.

Nid oes dim fformat na phroses benodedig ar gyfer cyflawni hunanarfarniad ond, o leiaf, mae'n rhaid i'r hyn a gyflwynir wneud y canlynol:

- cynnwys adroddiad o sut y gŵyr y Bwrdd fod y sefydliad yn cydymffurfio â phob safon reoleiddiol gan gynnwys cyfeirio at ddata perfformiad allweddol a ffynonellau sicrwydd,
- asesu cydymffurfiaeth â'r Cod Llywodraethiant y mae'r sefydliad wedi'i fabwysiadu,
- esbonio'r brif dystiolaeth y dibynnwyd arni wrth gyflawni'r arfarniad,
- dangos bod y broses arfarnu wedi bod yn gadarn,
- egluro sut y mae anghenion a safbwyntiau tenantiaid wedi cael eu deall a'u hystyried fel rhan o'r hunanarfarniad,
- nodi risgiau strategol allweddol a mesurau rheoli cysylltiedig â'r rheini neu gyfeirio at ddogfennaeth arall lle mynegir y risgiau allweddol,
- cynnwys cynllun gwelliant parhaus sy'n nodi unrhyw fylchau neu feysydd i'w gwella ac yn dangos sut yr eir i'r afael â'r rhain (mae hyn yn cymryd lle'r Cynllun Sicrwydd Rheoleiddiol).

## Cefndir

Â llaw ysgafn y mae asesiad a goruchwyliaeth reoleiddiol wedi cael eu gwneud yn ystod y 18 mis diwethaf oherwydd y pandemig. Ar yr un pryd, mae'r safonau a'r dyfarniadau rheoleiddiol wedi bod yn cael eu hadolygu, mae gwaith hefyd wedi bod yn mynd ymlaen i ddatblygu model newydd o asesiad rheoleiddiol i ddarparu mwy o drylwyredd, cysonder a chymesuredd wrth ddod i ddyfarniadau. Dyfarniad dros dro oedd y dyfarniad diwethaf a gafodd Barcud ym mis Mawrth 2021, lle cafodd y gymdeithas asesiad safonol am Lywodraethiant a gwasanaethau i denantiaid, a safonol am hyfywedd ariannol.

Ers y dyfarniad diwethaf, bu'r gymdeithas yn canolbwyntio ar integreiddio yn sgil yr uniad, a oedd 86% o'r ffordd tuag at ei gwblhau ym mis Mawrth 2022. Cynhwysai hyn yr holl adrannau ac mae unrhyw weithredoedd nad ydynt wedi'u cwblhau wedi cael eu symud i gynllun gweithredu Barcud ar gyfer 2022/23. Prosiect arall oedd ailgyllido - a gwblhawyd ym mis Awst 2022. Ailgyllidwyd hen fenthyciadau drud â gosodiad preifat yn gwneud cyfanswm o £50m gan Aberdeen Standard Investments, a hynny'n esgor ar arbedion mewn costau llog a chyllido rhaglen ddatblygu 5 mlynedd y gymdeithas. Gweithredwyd hefyd gyfleuster credyd treigl newydd gyda Barclays o £20m. Mae'r ddwy ffrwd gyllido'n gysylltiedig â dangosyddion perfformiad ACLI. Agorodd Creuddyn, y ganolfan mentr fusnes yn Llanbedr Pont Steffan ym mis Tachwedd 2021 ac mae hi wedi bod yn llwyddiant ysgubol â'r holl unedau'n llawn a rhestr aros bellach wedi'i sefydlu. Mae'r ystafelloedd cyfarfod a chynadledda'n cael eu defnyddio'n rheolaidd gan y gymuned.

## Amcanion Strategol

Mae ein hamcanion strategol yn sail i bopeth a wnawn ac er mwyn eu cyflawni mae'n rhaid inni gymryd i ystyriaeth gydymffurfiaeth â Safonau Rheoleiddiol Llywodraeth Cymru.

- Darparu 5,000 o gartrefi cynaliadwy, fforddiadwy, deiliadaeth gymysg, o safon uchel yng Nghanolbarth Cymru erbyn 2025.
- Bod yn landlord cymunedol ardderchog, sydd hefyd yn darparu gwasanaethau cymorth a gofal.
- Bod yn fusnes cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar ei denantiaid a'i breswylwyr, sy'n cynnwys cwsmeriaid ar bob lefel ac sy'n gweithredu'n ddwyieithog.
- Gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru i atal a mynd i'r afael â digartrefedd yn ei holl ffurfiau.
- Bod yn gyflogwr delfrydol sy'n cefnogi'r economi leol a chymunedau lleol.
- Bod yn sefydliad cynaliadwy, carbon isel.
- Bod yn sefydliad y mae ei drefniadau llywodraethu a'i sefyllfa ariannol yn gadarn

## Safonau Rheoleiddiol

Gosodir y 'Safonau Perfformiad' (i'w galw'n Safonau Rheoleiddiol) ac unrhyw reolau cysylltiedig gan Weinidogion Cymru yn unol ag Adran 33A o Ddeddf Tai 1996.

Gwelir isod y safonau rheoleiddiol y mae rhaid i gymdeithasau tai gydymffurfio â hwy. Asesir cydymffurfiaeth gan ddefnyddio asesiad 3 haen o gydymffurfio'n llawn, cydymffurfio'n rhannol neu heb fod yn cydymffurfio.

# SR1 Mae gan y sefydliad drefniadau arwain a llywodraethu strategol effeithiol sy'n ei alluogi i gyflawni ei ddiben a bodloni ei amcanion

Mae gan Barcud gynllun busnes corfforaethol 5 mlynedd sy'n cael ei ddiweddaru'n flynyddol ac sy'n gosod y weledigaeth a'r amcanion strategol ar gyfer y grŵp a sut y maent yn mynd i'w cyflawni, gan ganolbwyntio hefyd ar risg a sicrwydd, gwerth am arian, llwyodraethiant ac adnoddau ariannol. Mae'r cynllun busnes hwn ar gael yn ddwyieithog i'r holl randdeiliaid, cyllidwyr, llywodraeth leol, llywodraeth Cymru, tenantiaid a staff ymhlith eraill ar ein gwefan www.barcud.cymru.

Bydd y Bwrdd yn asesu'n flynyddol gydymffurfiaeth â Chod Llywodraethiant Cartrefi Cymunedol Cymru. Mae'r gymdeithas mewn cydymffurfiaeth â'r Cod Llywodraethiant. Un mewnol yw'r asesiad ac mae'n cynnwys cydymffurfiaeth, sicrwydd, canlyniadau a gweithredoedd pellach y mae eu hangen. Bydd y Bwrdd wedyn yn adolygu cynnydd ar y gweithredoedd a nodwyd yn ystod y flwyddyn. Adolygir pob dogfen lywodraethiant a pholisi arall ar sail dreigl, gyda chraffu gan weithwyr drwy fforwm y gweithwyr a chan denantiaid drwy Grŵp Monitro Barcud lle bo'n berthnasol. Cymeradwyir y dogfennau hyn gan bwyllgorau, lle dirprwyir hynny gan y Bwrdd, neu gan y Bwrdd ei hun.

Mae gwaith yn mynd ymlaen i sicrhau bod gan Barcud wybodaeth a data da mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI) ar draws pob maes o'i fusnes gan gynnwys y cymunedau y mae'n gweithio ynddynt. Caiff yr wybodaeth o Gyfrifiad 2021 ei chyhoeddi yn yr haf a bydd o gymorth mawr yn hynny o beth. Mae Barcud yn gweithio gyda Tai Pawb ar ddiweddaru ei bolisi a'i strategaeth EDI, rhywbeth a fydd yn esgor ar gynllun gweithredu o ran sut y gallwn wella yn y maes hwn. Mae ystadegau amrywiaeth ar gael o ardal Awdurdod Lleol Ceredigion lle yr ydym yn gweithio ac maent ynghlwm fel atodiad 1 yn yr adroddiad hwn, er bod y rhain wedi'u cyfyngu i bobl ar y gofrestr dai ond fe gânt eu cymharu â chanlyniadau'r Cyfrifiad pan fyddant ar gael. Mae Barcud yn cymryd hiliaeth a throseddau casineb yn y cymunedau y mae'n eu gwasanaethau yn hollol o ddifrif ac mae'n gweithio mewn partneriaeth â'r heddlu a phartïon eraill yn y 3edd sector i sicrhau nad oes neb yn dioddef camwahaniaethu o'r fath.

Mae bwrdd Barcud wedi'i gyfansoddi o 12 o bobl, 5 o ddynion, 5 o ferched a 2 y mae'n well ganddynt beidio â dweud. Penodir aelodau'r bwrdd ar sail y sgiliau a'r wybodaeth y mae eu hangen a byddant yn cael arfarniadau ac asesiadau sgiliau blynyddol er mwyn cael sicrwydd y gall y bwrdd fod yn effeithiol.

Seilir y broses o wneud penderfyniadau ar wybodaeth eglur, gryno o ansawdd da. Bydd adroddiadau i'r Bwrdd neu Bwyllgorau wedi'u safoni ac eitemau wedi'u cymryd i ystyriaeth megis cysylltiadau ag:

- Amcanion strategol
- Adnoddau
- Risg
- Effaith amgylcheddol
- Effaith ar denantiaid/gwsmeriaid
- Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- Gwerth am Arian/Gwerth Cymdeithasol


Bydd y tîm Arweinyddol yn cwrdd â grŵp y tenantiaid, Grŵp Monitro Barcud (GMB) yn ddeufisol i drafod eitemau strategol a'r broses o wneud penderfyniadau. Bydd GMB hefyd yn dod i gyfarfod Bwrdd strategol fel rhan o hunanarfarniad fel y gallant roi barn annibynnol gan y tenantiaid i'r Bwrdd ar sut y mae'r gymdeithas yn perfformio.

Mae gan y gymdeithas gofrestr gydymffurfiaeth er mwyn cynnal a monitro gofynion a datganiadau rheoleiddiol a bydd yn gweithredu ar sail perthynas dim byd annisgwyl â'r rheoleiddiwr, gan gyfathrebu unrhyw faterion a fo'n codi.

**Tystiolaeth sicrwydd - cynllun busnes corfforaethol ar y wefan, adolygiad o gydymffurfiaeth â'r cod llywodraethiant a chynllun gweithredu, drafft o bolisi EDI wedi'i ddiweddaru, ystadegau gan awdurdodau lleol, cofnodion y Bwrdd a Phwyllgorau, dogfennau arfarnu'r Bwrdd, templedi adroddiad y Bwrdd, cofnodion Grŵp Monitro Barcud, cofrestr gydymffurfiaeth.*

# SR2 Mae trefniadau cadarn ar waith i reolio risg a rhoi sicrwydd

Mae Barcud yn gweithredu fframwaith rheoli risgiau i nodi a rheoli risgiau:




Mae dogfen ategol i bob risg sy'n dangos y sgôr risg heb liniaru, y sgôr risg gyda lliniaru, y parodrwydd i dderbyn risg, ffactorau ac effeithiau risg, mesurau rheolaeth mewnol a sicrwydd. Mae'n defnyddio'r ffactorau hyn i benderfynu a yw'r risg wedi'i rheoli ynteu heb ei rheoli. Mae Barcud yn cymryd ymagweddiad positif at reoli risgiau a bydd felly nid yn unig yn edrych ar y posibiliad o bethau'n mynd o'u lle ond bydd hefyd yn rhagweithiol ac yn ystyried y buddion a'r cyfleoedd sydd i'w hennill. Bydd eitem ar yr agenda ar risgiau sy'n dod i'r golwg yn cael ei chynnwys ym mhob cyfarfod Bwrdd strategol ac fe adolygir risgiau bob chwarter yn y Pwyllgor Archwilio a Pherfformiad a risgiau strategol bob chwarter yn y cyfarfod Bwrdd gweithredol.

Gosodir sgôr parodrwydd i dderbyn risg ar gyfer pob risg strategol/uchel. Seilir y parodrwydd ar y raddfa pedwar pwynt ganlynol i asesu'r parodrwydd i dderbyn pob risg:

1 - Osgoi/Lleiaf Posib

2 - Gochelgar

3 - Cytbwys

4 - Agored

*Osgoi/Lleiaf Posib - Cyn lleied ag sy'n rhesymol bosib. Ffafrio'r dewis saff tu hwnt. Budd sydd i'w ennill o bosib yn gyfyngedig. Osgoi risg yw'r amcan allweddol.*

*Gochelgar - Dewis yr opsiynau saff bob tro ac iddynt risg gynhenid isel, hyd yn oed os rhydd hyn fudd potensial cyfyngedig.*

*Cytbwys - Ffafrio opsiynau saff â pheth risg gynhenid ond y potensial o fuddion mwy.*

*Agored - Yn fodlon ystyried pob opsiwn potensial a mentro'n fwy nag arfer i ennill buddion.*

Delir y rhan fwyaf o fframwaith sicrwydd Barcud yn y feddalwedd Rheoli Perfformiad Pentana. Y model 3 llinell amddiffynnol y bydd Barcud yn ei ddefnyddio ac mae enghreifftiau i'w gweld isod, nid rhestr hollgynhwysfawr mo hon.

1. Swyddogaethau Rheolaeth Weithredol
   - DPA
   - Adroddiadau ariannol
   - Rheoli Risgiau
2. Swyddogaethau Cydymffurfiaeth Fewnol
   - Polisïau
   - Hunanarfarnu
   - Arolygon bodlonrwydd
3. Her wrthrychol
   - Archwiliad mewnol
   - Bwrdd
   - Atborth gan randdeiliaid
   - Archwiliad Allanol/Achrediadau


Cafodd y gymdeithas archwiliad mewnol ar reoli risgiau yn 2021/22 lle gwelwyd canlyniad sicrwydd rhesymol.

Mae gan y gymdeithas gynllun parhad busnes yn ei le, ynghyd â pholisi ar gyfer adferiad ar ôl aflwydd TGCh.

**Tystiolaeth sicrwydd – cofrestrau risgiau, polisi rheoli risgiau, meddalwedd rheoli perfformiad Pentana, cofnodion y bwrdd, cofnodion AaPh, fframwaith sicrwydd, adroddiad archwiliad mewnol, atborth o hyfforddiant gydag Altair, polisïau PB., cofrestrau risgiau'r is-gwmnïau.*

O ran cydymffurfiaeth, ymgymerir â rhaglen lawn o arolygu a phrofi systemau gwresogi, gwifrau trydanol, asbestos, rheolaeth legionela ac asesiadau risgiau tân i gwrdd â gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol. Yn ogystal â hynny, mae'r Gymdeithas yn agosáu at gwrdd â'r Rheoliadau newydd o ran Ffitrwydd i Fod yn Gartref sy'n deillio o'r Ddeddf newydd ar Rentu Cartrefi, yn benodol mewn perthynas â gosod synwyryddion CO ym mhob eiddo a wresogir â chyfarpar tanwydd ffosil. Hefyd, bydd ein meddiannau i gyd ar raglen arolygu trydanol pum mlynedd erbyn Gorffennaf 2023. Caiff y meysydd cydymffurfiaeth allweddol hyn eu harchwilio'n annibynnol o leiaf unwaith ym mhob tair blynedd a chyflwynir adroddiadau Iechyd a Diogelwch chwarterol i bob Pwyllgor Archwilio a Pherfformiad ac i'r Bwrdd ar gylchdro chwe-misol.

Caiff Dangosyddion Perfformiad Allweddol Iechyd a Diogelwch Landlord eu monitro'n fisol a'u hadrodd i'r Tîm Arweinyddol, y Pwyllgor Archwilio a Pherfformiad a'r Bwrdd yn rheolaidd. Trefnir triniaeth gylchol flynyddol ar sail 11 mis er mwyn cydymffurfiaeth ac fe adroddir i'r bwrdd unrhyw resymau bod eiddo'n rhedeg y tu hwnt i'r 12 mis. Os mater tenantiaeth ydyw hysbysir yr adran dai iddynt roi cymorth. Gwelir isod enghraifft o'r tueddiad ar gydymffurfiaeth o ran trin offer nwy ar gyfer 2021/22.




Mae'r uchafbwynt yn ganlyniad i'r pandemig a phroblemau o ran mynd i dai tenantiaid. Achos eithriadol oedd hwn ac ni ddisgwylir iddo gyrraedd y lefel honno eto.

Bydd proffilio tenantiaid yn casglu gwybodaeth am anghenion penodol tenantiaid e.e. iaith, nam ar eu golwg. Byddwn yn cynhyrchu fersiynau print bras o ddogfennau a Newyddlen y Tenantiaid. Cyn hyn rydym wedi cynhyrchu recordiad o Lawlyfr y Tenantiaid, mae gennym gytundeb tenantiaeth Pwyleg a mynediad at gyfieithydd Pwyleg ar gyfer trafodaethau unigol. Byddwn yn ymwneud ag eiriolwyr ar gyfer gwasanaethau arbenigol ac fe wnawn ni arwyddbostio at wasanaethau arbenigol. Un fantais sydd gennym yw bod ein gwahanol dimau wedi'u lleoli mewn ardaloedd penodol ac yn gwybod anghenion unigol eu tenantiaid e.e. yn gwybod os yw tenant yn awtistig ac angen amser penodol pendant arnynt ar gyfer apwyntiad i gael atgyweiriadau. Ar gyfer cyfarfodydd Cyfranogiad Tenantiaid byddwn yn cynnig cludiant, cludiant arbenigol, help â chostau gofal plant. Mae 'Fforwm Cartref' yn bodoli ar gyfer y tenantiaid nad ydynt am ymuno â chyfarfodydd. Bydd trosglwyddiadau mewnol i lety mwy addas hefyd yn cael eu darparu'n rheolaidd i'n tenantiaid os ydynt wedi gofyn am y fath beth.

Yn ystod 2021/22, anfonodd y gymdeithas Arolwg STAR at ei holl denantiaid mewn cydymffurfiaeth â mentr setliad rhent ehangach Llywodraeth Cymru i ymgymryd ag arolwg wedi'i safoni o fodlonrwydd tenantiaid. Cwblhaodd 42% o denantiaid Barcud yr arolwg, sy'n uwch na'r gyfradd ddychwelyd arferol o 30%. Gwelir isod benawdau'r canlyniadau:

| | Meincnod | Canlyniad 2021 |
|---|---|---|
| Bodlonrwydd yn gyffredinol | 81% | 80% |
| Ansawdd y cartref | 81% | 76% |
| Saffrwydd a diogelwch y cartref | 85% | 85% |
| Atgyweirio a chynnal a chadw'n gyffredinol | 74% | 72% |
| Y gymdogaeth fel lle i fyw | 82% | 80% |
| Gwerth am arian rhent | 80% | 78% |
| Gwerth am arian y tâl gwasanaeth | 65% | 64% |
| Hawdd ymwneud â ni | 82% | 78% |
| Yn gwrando ar safbwyntiau ac yn gweithredu arnynt | 69% | 58% |
| delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol | 63% | 53% |
| Cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau | 58% | 65% |
| Cael mynegi barn am reoli gwasanaethau | 55% | 55% |
| Yn ymddiried yn Barcud | 78% | 68% |

O'r 13 chategori hyn, mae Barcud:-

- Naill ai'n cyrraedd yr un lefel o fodlonrwydd neu o fewn 2% i feincnod ARP mewn 7 o'r categorïau.
- 7% yn uwch yn y categori 'cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau'.
- Hyd at 5% yn is ar 'ansawdd y cartref' a 'hawdd ymwneud â ni'.
- Hyd at 11% yn is ar 'yn gwrando ar safbwyntiau ac yn gweithredu arnynt', 'delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol' ac 'ymddiried yn Barcud'.

Derbyniodd y bwrdd hefyd erthygl ar Fodlonrwydd Tenantiaid a baratowyd gan Denise Raine, Cyfarwyddwr Acuity, sy'n flaenllaw mewn darparu Arolygon Bodlonrwydd Tenantiaid, a hithau'n nodi bod lefelau bodlonrwydd tenantiaid wedi disgyn yn arw o hyd at 20% yn ystod y pandemig. Er gwaethaf hyn bydd Barcud yn adolygu gwasanaethau lle rydym o dan y meincnod ac yn chwilio am feysydd i'w gwella.

Adroddir holl berfformiad DPA Barcud i Grŵp Monitro Barcud yn rheolaidd lle creffir arno a derbynnir atborth o ran sut y gallwn wella gwasanaethau. Adroddir dangosyddion Gwerth am Arian yn yr Adroddiad Blynyddol. Mae'r gymdeithas yn ceisio gwella ei thryloywder ar berfformiad yn ystod 2022/23 a bydd yn cynnwys gwybodaeth am berfformiad yn newyddlen y tenantiaid ac ar wefan Barcud.

**Tystiolaeth sicrwydd – DPA, adroddiadau IaD, cofnodion y bwrdd, arolwg STAR, adroddiad blynyddol, cofnodion GMB.*

# SR4 Caiff tenantiaid eu grymuso a'u cefnogi i lywio a dylanwadu ar wasanaethau

YN CYDYMFFURFIO'N LLAWN

Mae tenantiaid wrth graidd popeth a wna Barcud ac mae cyfranogiad tenantiaid yn allweddol wrth gyflawni ein holl amcanion Strategol. Mae Grŵp Monitro Barcud yn grŵp sefydledig annibynnol er cyfranogiad tenantiaid, y mae Barcud yn ei ariannu'n flynyddol. Mae eu cylch gorchwyl yn nodi mai amcanion y grŵp yw:

- Darparu strwythur atebol a chynrychioladol.
- Dylanwadu ar ddyfodol Barcud drwy fynd ati'n weithredol i geisio ymwneud ac ymgynghori â thenantiaid a'r gymuned leol ehangach.
- Galluogi tenantiaid i adolygu rheolaeth a chynnal a chadw meddiannau Barcud.
- Hybu gwaith y Grŵp Monitro'n bositif o fewn yr ardal ehangach yn enwedig gyda grwpiau cymunedol a chefnogaeth eraill.

Mae gennym strategaeth cyfranogiad tenantiaid sy'n annog ac yn galluogi tenantiaid i gymryd rhan. O hon tarddodd cynllun gweithredu cyfranogiad tenantiaid ac amcanion y cynllun hwn yw:

1. ***Gwella'r gwasanaeth rheoli tai drwy wrando ar denantiaid, ymgynghori â hwy a'u hysbysu o'r gwahaniaeth y mae eu safbwyntiau wedi'i wneud.***
2. ***Meithrin diwylliant o gyfranogiad, atebolrwydd, agwedd agored a thryloywder fel y bo pob darpariaeth gwasanaethau yn agored i fewnbwn gan denantiaid.***
3. ***Sicrhau bod tenantiaid yn gwbl abl i gyfranogi ar lefel eu dewis drwy ddarparu hyfforddiant ac adnoddau.***
4. ***Sicrhau bod tenantiaid yn cymryd rhan lawn mewn cytuno egwyddorion blaenoriaethau buddsoddi yn y stoc dai yn ystod rhaglen buddsoddi cyfalaf pum mlynedd Barcud a mewn monitro ei chynnydd.***
5. ***Gweithio gyda'r gymuned ehangach ac asiantaethau partneriaeth er mwyn gwella ansawdd bywyd i'n tenantiaid a'n lesddeiliaid a'r cymunedau y maent yn byw ynddynt.***

Drwy gydol 2021/22, bu mwy na 146 o weithgareddau y bu tenantiaid yn cymryd rhan ynddynt, a'r rheini'n amrywio o gyfarfodydd â'r Tîm Arweinyddol a'r Tîm Rheolaeth Weithredol i ymweliadau â chartrefi gwag a fforymau cynlluniau gwarchod. Cynhaliwyd y fforwm cynllun gwarchod wyneb-yn-wyneb cyntaf ers y Pandemig ym mis Mai ac roedd yr atborth gan denantiaid yn gadarnhaol dros ben:

Beth rydych chi'n ei fwynhau am y Fforwm?

***Y cyfeillgarwch a'r hwyliau da***

***Yr awyrgylch cymdeithasol***

***Dod ynghyd a mwynhau cwmni ein gilydd***

***Y cwmni a'r staff***

***Dod ynghyd ag eraill, ein hun cyntaf ni oedd hwn ac fe wnaethon ni ei fwynhau'n fawr***

***Cwrdd â phobl neis***

***Cwrdd ag eraill o gynlluniau gwarchod eraill, cael ein cadw'n hysbys am beth sy'n mynd ymlaen, a'r gwahanol adloniant***

Sylwadau eraill

***Roedd y staff yn wych***

***Mae hi mor dda gweld fel y mae'r staff yn tendio ac yn gofalu am y preswylwyr i gyd, gan sicrhau ein bod ni'n mwynhau***

***Gwerthfawrogi'n daer yr holl waith caled wrth drefnu'r cyfarfodydd, y siaradwyr, paneidiau hyfryd***

Bydd Barcud yn cynnal cynhadledd tenantiaid flynyddol a chyfarfodydd Fforwm Cyswllt y Tenantiaid ddwywaith y flwyddyn, lle trafodir llawer o bynciau a lle cynhelir sesiynau holi ac ateb gyda staff. Ymhlith a pynciau a drafodir mae rhent a thaliadau gwasanaeth a Safonau Ansawdd Tai Cymru.

Bydd aelodau o Grŵp Monitro Barcud yn adolygu ac yn monitro perfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol ac yn dal staff yn atebol am unrhyw dangyflawni a welant. Mae grŵp adolygu polisi hefyd sy'n gweithio gyda staff i sicrhau bod polisïau tai a pholisïau sydd â chyswllt uniongyrchol â thenantiaid yn addas at eu diben. Gwelwyd gwerth hyn yn ddiweddar pan adolygwyd y polisi ar ddiogelwch tân mewn cynlluniau gwarchod, a mewnbwn gan y tenantiaid yn amhrisiadwy o safbwynt y bobl sy'n byw yn y cynlluniau.

Fel rhan o'r broses hunanarfarnu, bydd GMB yn bresennol yng nghyfarfod strategol y Bwrdd ac yn rhoi adolygiad annibynnol o sut maent yn meddwl y mae Barcud yn perfformio fel cymdeithas dai ac yn erbyn y safonau rheoleiddiol.

**Tystiolaeth sicrwydd – strategaeth cyfranogiad tenantiaid, cylch gorchwyl GMB, cofnodion GMB, cofnodion presenoldeb mewn digwyddiadau, datganiad annibynnol GMB, gwobr TPAS.*

# SR5 Mae Rhenti a Thaliadau Gwasanaeth yn fforddiadwy i denantiaid presennol a darpar denantiaid

Mae gan Barcud fecanwaith teg a thryloyw ar gyfer gosod rhenti, a fforddiadwyedd yn ystyriaeth oruchaf wrth wneud penderfyniadau. Bydd pob codiad rhent yn cydym-ffurfio â pholisi 5 mlynedd Llywodraeth Cymru ar osod rhenti.

Mae Barcud wedi ymrwymo i'r egwyddorion fforddiadwyedd i'r sector gyfan gan Gartrefi Cymunedol Cymru:

- Fforddiadwy: Fe ystyriwn ni gyfanswm costau rhentu cartrefi ac incymau i ddeall beth sy'n fforddiadwy i'n tenantiaid, a sicrhau bod ein tenantiaid yn cael y cyfle gorau i gynnal eu tenantiaethau a fynnu.
- Cynaliadwy: Fe osodwn ni renti sy'n caniatáu inni barhau i ddarparu cartrefi cynnes, saff, o ansawdd uchel ar gyfer y rhai y mae arnynt eu hangen yn y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.
- Ymgysylltu: Fe gynhwyswn ni denantiaid yn y broses i ddatblygu ac adolygu ein hymagweddiad at osod rhenti, ac i ddylanwadu ar ein penderfyniadau ar renti.
- Teg: Fe weithiwn ni i sicrhau bod rhenti a thaliadau eraill yn cael eu gosod yn deg a bod ein cartrefi a'n gwasanaethau'n cynrychioli gwerth am arian.
- Atebol: Byddwn ni'n agored, yn dryloyw ac yn atebol wrth wneud penderfyniadau ar renti.

Wrth osod rhenti fforddiadwy bydd Barcud yn cymryd i ystyriaeth fodel Sefydliad Joseph Rowntree. Mae hwn wedi'i lunio ar y sail nad yw'n fforddiadwy i denantiaid ar incwm isel wario mwy na thraean o'u hincwm ar gostau tai. Bydd Barcud hefyd yn defnyddio offeryn fforddiadwyedd Housemark Cymru i asesu fforddiadwyedd codiadau rhent sydd yn yr arfaeth ganddo. Bydd y gwiriad fforddiadwyedd hwn yn cynnwys taliadau gwasanaeth lle bônt yn berthnasol. Cyfeirir at yr uchod i gyd ym mholisi rhenti Barcud a adolygir yn flynyddol â mewnbwn gan Grŵp Monitro Barcud (GMB).

Yn ystod yr asesiad o godiadau rhent 2022/23, trafododd swyddogion a GMB y newidiadau arfaethedig i'r lefelau rhent fforddiadwy yng Ngheredigion a Phowys. Modelwyd y newidiadau hyn yn offeryn fforddiadwyedd Cartrefi Cymunedol Cymru i wirio eu bod o fewn y rheol fforddiadwyedd 30% wrth gymryd i ystyriaeth gostau eraill rhedeg cartref megis cyfleustodau a threth gyngor. Cytunodd GMB i'r cynigion a gofyn bod rhagor o fodelu'n cael ei wneud yn seiliedig ar gostau uwch cyfleustodau oherwydd yr amgylchedd allanol. Trafodwyd hefyd ymagweddiad adeiladwaith yn gyntaf at waith cyfalaf ar eiddo sydd eisoes yn bod er mwyn lleihau biliau gwresogi. Cymerwyd i ystyriaeth hefyd ganlyniadau o'r arolwg STAR diweddar a gwmpasodd ystod o'n tenantiaid ni ar draws Ceredigion a Phowys. Cwblhaodd 42% o denantiaid yr arolwg. Mae'r adroddiad yn nodi:

***"da yw gweld bod y canfyddiad presennol o werth am arian y rhent ymhlith tenantiaid yn gymharol uchel, a 78% yn honni eu bod yn fodlon yn hyn o beth, a'r rhan fwyaf o'r rheini'n 'fodlon iawn' (43%).***

***Yn wir, roedd canfyddiadau o'r lefel gwerth am arian yn ddigon cryf nes mai ychydig iawn o denantiaid a soniodd am y mater hwn, hyd yn oed, pan ofynnwyd iddynt ystyried pa welliannau yr hoffent eu gweld yn y dyfodol."***

Gan ddilyn arweiniad y polisi rhent, â phwyslais ar fforddiadwyedd a model Joseph Rowntree, penderfynwyd codi rhai targedau rhent fforddiadwy lle dangosai'r modelu eu bod yn gymedrol o dan y lefel fforddiadwyedd o 30%. Mae'n werth ei nodi bod y lefelau rhent fforddiadwy i Geredigion a Phowys ill dwy heb gael eu codi yn 2021/22. Os oedd meddiannau eisoes ar y rhent darged fforddiadwy, cafodd eu rhent ei rhewi. Canlyniad hyn oedd codiad cyfartalog cyffredinol o 2.8% ar draws y tenantiaid i gyd, sydd o dan y 3.1% a ganiateir gan Lywodraeth Cymru. Rhewyd rhenti 1,339 o denantiaid.

Bydd gosod y taliadau gwasanaeth yn cael ei wneud fel rhan o broses gosod cyllideb y Gymdeithas. Bydd y taliadau amcan yn cael eu llywio gan gostau'r flwyddyn flaenorol, y costau hyd yr adeg dan sylw, ac unrhyw newidiadau penodol i gostau neu safonau gwasanaeth megis chwyddiant. Wrth osod taliadau gwasanaeth, bydd Barcud yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth a gofynion statudol perthnasol. Ar gyfer unrhyw wasanaethau newydd sy'n golygu taliadau newydd, ymgynghorir â thenantiaid ymlaen llaw. Gwelir isod atborth o'r arolwg STAR o denantiaid ar daliadau gwasanaeth.

***"Mae mwyafrif llethol y sampl yn talu tâl gwasanaeth, ac o'r rhain roedd 64% ohonynt yn fodlon arno o ran gwerth am arian, canlyniad sydd, er hynny, yn gyson â'r sgôr feincnod o 65%."***

** Tystiolaeth sicrwydd – polisi rhent, adroddiadau/cofnodion y Bwrdd, cofnodion GMB, arolwg STAR, polisi taliadau gwasanaeth.*

# SR6 Mae gan y sefydliad ddull strategol o ymdrin â gwerth am arian sy'n llywio ei holl gynlluniau a gweithgareddau

Mae gan Barcud Bolisi Gwerth am Arian yn ei le sydd bellach i gael ei adolygu, er bod egwyddorion y polisi'n dal i fod yn berthnasol ac yn cael eu defnyddio drwy'r gymdeithas – "Gwerth am Arian yw'r perthynas rhwng y gwerth a greir o'r arian a'r adnoddau sydd ar gael. Fe gaiff ei gyflawni drwy gadw at y tair elfen allweddol – cael yr elfennau busnes sylfaenol yn iawn drwy fabwysiadu arferion sy'n optimeiddio darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Mae pedwaredd elfen, sef Tegwch – gwario'n deg i sicrhau bod y rhai â'r anghenion mwyaf yn cael eu hystyried – hefyd yn elfen allweddol o Werth am Arian yng Nghymru".

Mae rhan o'r gwaith Gwerth am Arian yn Barcud yn digwydd drwy gaffael, gan godi arian at fuddion cymunedol. Gall hyn amrywio o ofyn bod % o swm tendr yn cael ei rhoi i'r gronfa buddion cymunedol i bennu nifer y prentisiaid lleol y mae rhaid i'r contractiwr eu cyflogi yn ystod tymor y gwaith. Yn ystod 2021/22 roedd gan Barcud £17k yn y gronfa buddion cymunedol, ac fe ddefnyddiodd yr arian hyn i wneud y canlynol:

- rhoi wyneb newydd ar gwrtiau tennis cymunedol
- prynu peiriant rhedeg i gynllun gwarchod
- diffibrilwyr cymunedol
- £1.5k a roddwyd i fanciau bwyd
- £1k ar gyfer cynllun gardd gymunedol

Mae adroddiadau i'r Bwrdd a wneir ar dempled safonol yn cynnwys adran ar werth am arian i'r Bwrdd ystyried unrhyw oblygiadau gwerth am arian i'r penderfyniadau a wneir.

Bydd Barcud yn ei fesur ei hun ar berfformiad gwerth am arian gan ddefnyddio dangosyddion cyfrifon cyffredinol CCC ac yn adrodd y perfformiad hwn i'r Bwrdd, tenantiaid a rhanddeiliaid eraill.

Gwelir isod ganlyniadau o 2020/21:

| | Barcud | Cyfartaledd |
|---|---|---|
| Costau gweithredu fesul uned tai cymdeithasol | £2,440 | £3,418 |
| Costau rheoli fesul uned tai cymdeithasol | £1,084 | £1,308 |
| Costau Atgyweiriadau Ymatebol fesul uned tai cymdeithasol | £1,155 | £1,138 |
| Atgyweiriadau mawr (atg. cydran) fesul uned tai cymdeithasol | £1,560 | £961 |
| Drwgddyled fesul uned tai cymdeithasol | £12 | £28 |
| Cyfartaledd pwysoledig cost cyfalaf | 4.92% | 4.7% |
| Ôl-ddyledion gros | 3.6% | 4.9% |
| Cyfanswm trosiant fesul uned tai cymdeithasol | £6,131 | £5,737 |
| Colled rhent lleoedd gwag fesul uned tai cymdeithasol | £65 | £96 |

**Tystiolaeth sicrwydd - polisi gwerth am arian, templed adroddiadau i'r Bwrdd, cofnodion y Bwrdd, Adroddiad Blynyddol, tendrau, cyfrifon cyffredinol, graff gwerth am arian.*

# SR7 Mae'r cynllunio a'r rheolaeth ariannol yn gadarn ac yn effeithiol

YN CYDYMFFURFIO'N LLAWN

Paratoir cyllideb 5 mlynedd fanwl bob blwyddyn mewn ymgynghoriad â staff er mwyn galluogi'r gymdeithas i gyflawni ei nodau a'i hamcanion. Caiff hon graffu a chymeradwyaeth gan y Bwrdd a'i bwydo wedyn i mewn i'r cynllun busnes ariannol 30 mlynedd gan ddefnyddio rhagdybiaethau perthnasol. Caiff y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Pherfformiad gyfrifon rheolaeth sy'n adrodd perfformiad ariannol yn erbyn y gyllideb flynyddol, llif arian rhagamcanol 2 flynedd, cofrestrau gwariant cyfalaf a datblygiadau ac adroddiad adnoddau ariannol sy'n monitro cydymffurfiaeth â'r holl gyfamodau a ofynnir gan gyllidwyr. Bydd hyn a'r cynllun busnes ariannol 30 mlynedd yn rhoi sicrwydd i aelodau'r Bwrdd bod cyllid digonol yn ei le a bod y gymdeithas yn ariannol hyfyw.

Yn flynyddol bydd y bwrdd yn derbyn adroddiad a strategaeth adnoddau ariannol sy'n cwmpasu gweithgarwch adnoddau ariannol, hylifedd, benthyca a pherfformiad ariannol ar gydymffurfiaeth â chyfamodau. Fel y safai ar ddiwedd y flwyddyn ariannol roedd Barcud yn cydymffurfio â'i gyfamodfau ariannol i gyd.

Mae'r gymdeithas wedi tynhau'r rheolau euraid ar gyfer cydymffurfiaeth â chyfamodau a hefyd wedi cyflwyno pwyntiau ysgogi ar gyfer mwy o reolaeth ar risgiau. Mae pwyntiau ysgogi'n amlinellu symudiadau tuag at reolau euraid ac yn tanlinellu'r angen am weithredu.

Ar ôl sesiwn rheoli risgiau'n gynharach yn y flwyddyn cytunodd y Bwrdd ar yr hyn yr oedd angen ei roi dan brofion straen yn y cynllun busnes ariannol 30 mlynedd, yn unol â'r risgiau a oedd wedi'u nodi.

- Rhewi rhenti
- Cynnydd mewn costau llog
- Lleihau neu ddiddymu gwaddoliad LIC
- Cynnydd mewn chwyddiant
- Cynnydd mewn costau datblygu a lleihad mewn GTC
- Storm berffaith

Adroddwyd y senarios uchod a'r canlyniadau i'r Bwrdd ynghyd â mesurau lliniaru y gellid eu rhoi ar waith pe digwyddai'r senarios hyn. Dangosodd y profion straen fod gan Barcud gynllun ariannol cadarn yn ei le. Er gwaethaf hyn ac yng ngolwg yr amgylchedd allanol penderfynwyd gwneud rhagor o brofion straen byw a gwaith lliniaru gyda HQN a'r Bwrdd ym mis Mehefin.

Fel y safai ar 31ain o Fawrth 2022, roedd holl is-gwmnïau grŵp Barcud yn adrodd gwarged.

**Tystiolaeth sicrwydd - cyfrifon rheolaeth, Cynllun Busnes 30 mlynedd, papur cyllideb 5 mlynedd, adroddiad a strategaeth adnoddau ariannol blynyddol, papur profion straen, cofnodion y Bwrdd/Pwyllgor Archwilio a Pherfformiad, adroddiad archwilio mewnol, cyngor gan Centrus, llythyr rheoli archwiliad allanol.*

## Caiff Asedau a Rhwymedigaethau eu rheoli'n dda



Ers yr uniad, mae cofrestrau asedau a rhwymedigaethau'r ddwy gymdeithas wedi cael eu cyfuno a'u hadolygu a'u hadrodd i'r pwyllgor Archwilio a Pherfformiad. Proses yw hyn ac fe gaiff ei hadolygu a'i diweddaru'n barhaus.

Mae gan y gymdeithas stoc deiliadaeth gymysg ar draws canolbarth Cymru er mwyn darparu i'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu gartrefi addas ar gyfer pobl. Ar dai fforddiadwy y bydd y pwyslais bob amser, yn unol â'n hamcanion strategol. Y cymysgedd o eiddo yw:

| | |
|---|---|
| Anghenion cyffredinol | 3,671 |
| Llety gwarchod | 358 |
| Rhent Ganolradd | 79 |
| Rhent y Farchnad | 20 |
| Rhentu i Berchnogi | 44 |
| Lesddeiliaid | 186 |
| Rhanberchnogaeth | 3 |
| Cymorth Prynu | 3 |
| Garejys | 656 |

Yn ystod 2021/22, cynigiwyd 30% o feddiannau gwag i Awdurdodau Lleol er mwyn darparu llety digartrefedd. Roedd gan Y Gymdeithas Gofal 119 o oedolion a 18 o blant yn cael hyd i lety argyfwng drwy eu stoc dai.

Bydd y gymdeithas yn defnyddio ProVal i asesu gwerth asedau, pan fo angen gwneud penderfyniadau ar gyfer datblygiadau newydd neu werthiannau posib. Adeg gwneud penderfyniadau o'r fath bydd y Bwrdd hefyd yn cael gwybodaeth ychwanegol megis yr angen am dai.

Ein heiddo ni yw ein swyddfeydd i gyd, a'n fflyd hefyd.

**Tystiolaeth sicrwydd - cofrestr AaRh, cofnodion y pwyllgor archwilio a pherfformiad a'r Bwrdd, adroddiadau ProVal, adroddiadau ar leoedd gwag, strategaeth rheoli asedau, arolygon o gyflwr y stoc.*

# SR9 Mae'r sefydliad yn darparu llety o ansawdd uchel

Mae holl feddiannau Barcud sydd wedi'u hadeiladu o'r newydd yn cydymffurfio â Gofynion Ansawdd Dylunio Cymru (GADC) o leiaf ac mae ein datblygiadau diweddaraf yn cael eu hadeiladu yn unol neu bron â bod yn unol â safonau Passivhaus, â sgoriau tystysgrif perfformiad ynni (TPY) uwchben SAP92. Arfernir perfformiad adeiladau pob datblygiad i sicrhau bod yr adeiladwaith 'fel y mae wedi'i adeiladu' yn cydymffurfio â'r safonau perfformiad yn ôl y dyluniad. Mae rhan o'n proses dichonoldeb cynlluniau hefyd yn asesu apêl yr amgylchedd a lefel gyffredinol yr amwynder a'r gwasanaethau sydd i'w cael i sicrhau cynaliadwyedd a gosodadwyedd y cynllun arfaethedig yn y dyfodol.

Mewn perthynas â'n stoc bresennol ac yn unol â'n Strategaeth Rheoli Asedau, arolygir 20% o feddiannau'r Gymdeithas bob blwyddyn i asesu eu cyflwr yn erbyn Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC) a hefyd, pan fônt yn wag. Fel y safai ar 31/03/2022, mae gennym 3,955 o feddiannau a rentir yn gymdeithasol, a 2,586 (64%) o'r rheini'n cwrdd â SATC yn llawn. 'Methiannau Derbyniol' yw'r 1,369 o feddiannau eraill, â 15.3% i'w priodoli i faterion 'Amseriad y Cywiriad' ac 8.9% i 'Ddewis y Preswylwyr'. Mae'r materion Amseriad y Cywiriad yn ymwneud bron yn gyfan gwbl â meddiannau naill ai lle mae lefelau SAP o dan SAP65 neu lle rydym yn disgwyl am TPY newydd ar ôl oedi mewn cwblhau'r asesiadau newydd hyn oherwydd Covid/dim mynediad. Mae Strategaeth Ddatgarboneiddio'r Gymdeithas, a gymeradwywyd yn ddiweddar, yn ffafrio ymagweddiad 'Adeiladwaith yn Gyntaf' sydd yn unol â chynigion cyfredol SATC 2023. Mae ein rhaglen adnewyddu cydrannau arfaethedig wedi cael ei haildrefnu ac mae hi bellach yn blaenoriaethu cydrannau newydd o ran drysau a ffenestri, ynysiad waliau allanol a gwresogi ac mae'r ffordd hon o fynd ati wedi cael ei chefnogi a'i chymeradwyo gan ein Panel Tenantiaid. Mae'r Gymdeithas yn ffafrio gosod Pympiau Gwres Ffynhonnell Aer (PGFfA), ynghyd â phaneli haul ffotofoltäig neu wresogi stôr trydanol o fath effeithlon wrth gadw gwres i helpu wrth fynd i'r afael â'r broblem o SAP isel. Mae ymgynghori'n parhau â'n tenantiaid ynghylch pryderon am wres fforddiadwy ac rydym wrthi'n llunio Polisi Gwres Ffroddiadwy i ategu ein Strategaeth Ddatgarboneiddio a ninnau'n cydnabod pwysigrwydd lleihau costau ynni i'n preswylwyr ar yr un pryd â cheisio lleihau ein hôl troed carbon at ei gilydd.

Yn ystod 2021/22 gwnaeth y gymdeithas adnewyddu a/neu osod:

| | |
|---|---|
| Ynysiad Waliau Allanol | 20 |
| Paneli Ffotofoltäig | 22 |
| Pympiau Gwres Ffynhonnell Aer | 20 |
| Gwresogi Arall | 70 |

| | |
|---|---|
| Drysau a Ffenestri | 65 |
| Toeau | 53 |
| Ceginau | 132 |
| Ystafelloedd Ymolchi | 97 |

**Tystiolaeth sicrwydd – Pentana, adroddiad SATC, strategaeth ddatgarboneiddio, DPA, adroddiadau dichonoldeb cynlluniau, cofnodion y bwrdd.*

# Cynllun Datblygu Parhaus 2022/23

**SR1** c) Yn pennu ymrwymiadau mesuradwy sy'n seiliedig ar dystiolaeth ym mhob un o'i feysydd busnes mewn perthynas â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI), ac yn adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau y mae'n gweithio ynddynt.

| Gweithredoedd | I'w gyflawni erbyn |
|---|---|
| Adolygu'r polisi/strategaeth EDI a rhoi cynllun gweithredu ar waith. Defnyddio gwybodaeth o'r cyfrifiad i fesur ein tenantiaid/bwrdd/staff o'u cymharu â'n cymunedau. | Maw 2023 |
| **Yn gyfrifol** Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol / Cyfarwyddwr Tai a Chefnogaeth | |

**SR3** a) Yn sicrhau bod tenantiaid yn ddiogel yn eu cartrefi ac yn nodi ac yn cywiro'n brydlon unrhyw achosion o danberfformio neu ddiffyg cydymffurfio â materion iechyd a diogelwch landlordiaid.

| Gweithredoedd | I'w gyflawni erbyn |
|---|---|
| Pob prawf diogelwch trydanol i fod ar sail 5 mlynedd. | Gorff 2023 |
| Ffitio larymau carbon monocsid lle bo angen. | Rhag 2022 |
| **Yn gyfrifol** Cyfarwyddwr Datblygu a Rheoli Asedau | |

**SR3** c) Yn cyflawni ac yn cynnal lefel uchel o foddhad â gwasanaethau ymhlith tenantiaid.

| Gweithredoedd | I'w gyflawni erbyn |
|---|---|
| Mae gweithgor mewnol wedi cael ei sefydlu gyda thenantiaid i ganolbwyntio ar wella gwasanaethau yn y meysydd canlynol: Taliadau gwasanaeth, Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, gwasanaethau digidol, atgyweiriadau, cyfranogiad tenantiaid a chyfathrebiadau a chyswllt. | Maw 2023 |
| **Yn gyfrifol** Cyfarwyddwr Tai a Chefnogaeth | |

**SR3** d) Yn sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad y landlord ar gael i denantiaid.

| Gweithredoedd | I'w gyflawni erbyn |
|---|---|
| Ychwanegu gwybodaeth am berfformiad at gylchlythyrau tenantiaid a'r wefan. | Rhag 2022 |
| **Yn gyfrifol** Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol | |

**SR4** d) Gall ddangos bod safbwyntiau a disgwyliadau amrywiol tenantiaid yn llywio'r gwaith o ddatblygu ac adolygu gwasanaethau tai a gwasanaethau cysylltiedig, a'r ymateb i unrhyw achosion o danberfformio.

| Gweithredoedd | I'w gyflawni erbyn |
|---|---|
| Gofyn i denantiaid sy'n cymryd rhan lenwi ffurflen EDI a monitro EDI mewn digwyddiadau i denantiaid. Cymharu â demograffeg yr ardal gan ddefnyddio gwybodaeth o'r Cyfrifiad. | Maw 2023 |
| **Yn gyfrifol** Cyfarwyddwr Tai a Chefnogaeth | |

**SR6** a) Yn pennu ei ddull strategol o ymdrin â gwerth am arian, gan sicrhau bod y dull yn ymwneud â'i ddiben cymdeithasol, ac yn gwneud penderfyniadau strategol a gweithredol yn unol ag ef.

| Gweithredoedd | I'w gyflawni erbyn |
|---|---|
| Adolygu'r polisi gwerth am arian a chreu fframwaith a chynllun gweithredu gwerth am arian. | Rhag 2022 |
| **Yn gyfrifol** Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol | |

**SR6** b) Gall ddangos i randdeiliaid a thenantiaid ei fod yn sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu ei wasanaethau.

| Gweithredoedd | I'w gyflawni erbyn |
|---|---|
| Cynnwys datganiad ynghylch gwerth am arian yn yr adroddiad blynyddol. | Maw 2023 |
| **Yn gyfrifol** Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol | |

**SR8** a) Mae ganddo ddealltwriaeth gywir a chyfredol o'i asedau a'i rwymedigaethau.

| Gweithredoedd | I'w gyflawni erbyn |
|---|---|
| Angen rhagor o waith ar y gofrestr gontractau. Adolygu'r strategaeth rheoli asedau. | Rhag 2022 |
| **Yn gyfrifol** Cyfarwyddwr Datblygu a Rheoli Asedau | |

**SR9** a) yn sicrhau bod cartrefi'n cydymffurfio â'r holl safonau, rheolau a chanllawiau statudol perthnasol a gyhoeddir mewn perthynas ag ansawdd llety, gan gynnwys Safon Ansawdd Tai Cymru.

| Gweithredoedd | I'w gyflawni erbyn |
|---|---|
| Strategaeth cynhesrwydd fforddiadwy. Parhau i leihau methiannau derbyniol. | Rhag 2022 |
| **Yn gyfrifol** Cyfarwyddwr Datblygu a Rheoli Asedau | |